

OCR

Oxford Cambridge and RSA

Dydd Iau 7 Ionawr 2016 – Bore

LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

R001/02 Deall Systemau Cyfrifiadurol

Mae ymgeiswyr yn ateb ar y Papur Cwestiynau.

Deunyddiau a ddarperir gan OCR:

- Copi Glân o'r Astudiaeth Achos wedi'i Rhyddhau Ymlaen Llaw (R001/02 – Atodiad)

Deunyddiau eraill angenrheidiol:

Dim

Amser: 1 awr



Enw cyntaf yr ymgeisydd		Cyfenw'r ymgeisydd	
-------------------------	--	--------------------	--

Rhif y ganolfan						Rhif yr ymgeisydd				
-----------------	--	--	--	--	--	-------------------	--	--	--	--

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

- Mae Atodiad yr Astudiaeth Achos y tu mewn i'r ddogfen hon.
- Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau uchod. Ysgrifennwch yn glir ac mewn priflythrennau.
- Defnyddiwch inc du. Gellir defnyddio pensil HB ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.
- Atebwch **bob** cwestiwn.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus. Gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud cyn dechrau eich ateb.
- Ysgrifennwch eich ateb i bob cwestiwn yn y lle gwag a ddarperir. Gellir defnyddio papur ychwanegol os bydd angen, ond rhaid i chi ddangos eich rhif ymgeisydd, rhif y ganolfan a rhif/rhifau'r cwestiwn yn glir.
- Peidiwch** ag ysgrifennu yn y codau bar.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi'i nodi mewn cromfachau [] ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
- 60** yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **12** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

ADRAN A

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u seilio ar Senario 1 yn yr astudiaeth achos a'ch ymchwil gefndirol.

Atebwch **bob** cwestiwn.

1 Mae'n rhaid i bawb sydd eisiau cofrestru â Phractis Meddygon Appleside lenwi holiadur ar bapur.

(a) Disgrifiwch **un** fantais defnyddio ffurflen ar bapur ar gyfer hyn.

.....
.....
.....
..... [2]

(b) Disgrifiwch **un** anfantais, i'r practis, o ddefnyddio ffurflen ar bapur ar gyfer hyn.

.....
.....
.....
..... [2]

Mae angen i'r practis gadw copi digidol o bob holiadur.

(c) Nodwch **un** ddyfais a allai gael ei defnyddio i greu copi digidol o holiadur.

..... [1]

2 Caiff y data sy'n cael eu darparu ar yr holiadur eu hychwanegu at gronfa ddata o gofnodion cleifion.

(a) Nodwch **ddwy** ddyfais fewnbynnu y gallai staff gweinyddu eu defnyddio wrth ychwanegu'r data hyn at y gronfa ddata.

1:

2:

[2]

(b) Nodwch **un** ddyfais allbynnu sy'n gallu cael ei defnyddio i edrych ar y cofnodion wrth iddyn nhw gael eu hychwanegu.

..... [1]

(c) Esboniwch pam y byddai cynnwys ffurflen mewn cronfa ddata yn gwneud y broses ychwanegu data yn fwy effeithlon.

.....

.....

.....

..... [2]

(d) Disgrifiwch sut y byddai defnyddio ymholiad yn ei gwneud yn haws gweithio â'r gronfa ddata.

.....

.....

.....

..... [2]

3 Mae Practis Meddygon Appleside yn darparu mynediad wifi yn yr ystafell aros fel bod cleifion yn gallu ei ddefnyddio ar eu dyfeisiau eu hunain.

(a) Esboniwch pam y gallai darparu mynediad wifi achosi risg diogelwch i'r practis.

.....
.....
.....
.....
.....
..... [3]

(b) Disgrifiwch **un** ffordd gall y risg hon gael ei lleihau tra bydd mynediad wifi yn parhau i gael ei ddarparu.

.....
.....
.....
..... [2]

4 Mae Rheolwr y Swyddfa yn creu copi wrth gefn o'r holl ddata sy'n cael eu dal ar y system ar yriant caled allanol.

(a) Mae copi wrth gefn o ddata yn cael ei greu dros nos. Esboniwch **un** rheswm pam mae copi wrth gefn o ddata yn cael ei greu dros nos, yn hytrach nag ar unrhyw adeg arall yn ystod y dydd.

.....
.....
.....
..... [2]

Mae Rheolwr y Swyddfa yn ystyried newid y system wrth gefn fel bod copi wrth gefn o'r holl ddata yn cael ei greu ar y cwmwl.

(b) Cymharwch ddefnyddio storio cwmwl a gyriant caled symudol (*removable*) fel ffyrdd o greu copi wrth gefn o'r holl ddata sy'n cael eu dal gan Bractis Meddygon Appleside. Awgrymwch pa ddull fyddai'r un mwyaf addas, gan roi rhesymau dros eich dewis.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
..... [8]

ADRAN B

Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u seilio ar Senario 2 yn yr astudiaeth achos a'ch ymchwil gefndirol.

Atebwch **bob** cwestiwn.

- 5** Pan fydd claf yn gofyn am ymweliad cartref y tu allan i oriau, bydd y practis yn ffonio'r meddyg sydd ar alwad i roi'r manylion iddo/iddi.

Esboniwch **un** fantais bosibl ac **un** anfantais bosibl, i'r practis, o ddefnyddio ffôn i drosglwyddo'r wybodaeth hon.

Mantais:

.....
.....
.....
.....

Anfantais:

.....
.....
.....
.....

[4]

6 Mae Tamsin yn cael gliniadur gan y practis, ac mae hi'n defnyddio'r gliniadur pan fydd hi'n ymweld â chartrefi cleifion.

(a) Nodwch **un** o ddibenion y system weithredu ar liniadur Tamsin.

.....
..... [1]

(b) Disgrifiwch ddiben y gyriant caled ar liniadur Tamsin.

.....
.....
.....
..... [2]

Mae'n bwysig fod y data sy'n cael eu dal ar liniadur Tamsin yn cael eu cadw'n ddiogel.

Mae'r system weithredu ar liniadur Tamsin yn ei rhybuddio hi os nad yw hi'n defnyddio cyfrinair cryf.

(c) Nodwch **ddwy** o nodweddion cael cyfrinair cryf.

1:
2: [2]

Mae'n rhaid i Tamsin fewnosod (*insert*) allwedd ddiogelwch USB pan fydd hi'n troi ei gliniadur ymlaen i ddechrau.

(d) Esboniwch sut mae hyn yn gwella diogelwch y gliniadur.

.....
.....
.....
.....
..... [3]

7 Mae meddalwedd gwrthfeirws wedi ei gosod ar y gliniadur sy'n cael ei roi i bob meddyg.

(a) Disgrifiwch **un** rheswm pam mae angen gosod meddalwedd gwrthfeirws ar bob un o gyfrifiaduron y practis.

.....
.....
.....
..... [2]

Mae meddalwedd gwrthfeirws yn gallu cael ei diweddaru â llaw neu yn awtomatig.

(b) Mae Rheolwr y Swyddfa yn defnyddio system awtomataidd i ddiweddaru'r feddalwedd gwrthfeirws. Esboniwch **un** fantais i Rheolwr y Swyddfa o ddefnyddio'r system awtomataidd.

.....
.....
.....
..... [2]

Unwaith y mis, mae'n rhaid i Tamsin ddychwelyd ei gliniadur i'r practis ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Mae Rheolwr y Swyddfa yn defnyddio rhai o'r offer system ar y gliniadur ar gyfer hyn.

Mae Rheolwr y Swyddfa yn defnyddio offeryn system i ddad-ddarnio gliniadur Tamsin.

(c) (i) Esboniwch **un** rheswm pam mae'n bwysig dad-ddarnio cyfrifiadur Tamsin.

.....
.....
.....
..... [2]

- (ii) Nodwch a disgrifiwch **ddau** offeryn system arall a allai gael eu defnyddio gan Reolwr y Swyddfa i gynnal gliniadur Tamsin.

Offeryn system 1:

Disgrifiad:

.....

.....

.....

Offeryn system 2:

Disgrifiad:

.....

.....

.....

[6]

8 Mae Tamsin wedi awgrymu y dylai'r practis ddefnyddio ffurflen ddigidol.

(a) Rhwch **un** fantais i gleifion o gynnwys **pennawd** ar ffurflen ddigidol.

.....
..... [1]

(b) Disgrifiwch **un** o fanteision defnyddio rhestr gwymplen ar y ffurflen ddigidol er mwyn dewis grŵp ethnig.

.....
.....
..... [2]

(c) Bydd y ffurflen ddigidol newydd yn cynnwys **botymau radio** a **blychau testun**.

Cymharwch y wybodaeth bydd y claf yn gallu ei chofnodi â'r ddwy nodwedd hon.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
..... [4]

(d) Ar waelod y ffurflen, bydd botwm **cyflwyno** (*submit*).

Disgrifiwch beth fydd yn digwydd pan fydd y defnyddiwr yn clicio ar y botwm cyflwyno ar y ffurflen.

.....
.....
..... [2]

DIWEDD Y PAPUR CWESTIYNAU

11
TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON

OCR
Oxford Cambridge and RSA**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwmo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.